3-SET The Third Sector European Team
Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector

Cadw Cofnodion

Cadw cofnodion ar gyfer prosiectau a gyllidir gan Ewrop

Trosolwg

1. Cyflwyniad
2. Beth yw cadw cofnodion?
3. Pam cadw cofnodion?
4. Y man cychwyn
5. Cadw cofnodion yn erbyn monitro a gwerthuso
6. Archwilio a chadw dogfennau
7. Fformat dogfennau
8. Cadw cofnodion ariannol
9. Cadw cofnodion ar gyfer costau cyfalaf
10. Chynhyrchu incwn a phrosictau a gyllidir gan Ewrop
11. Cadw cofnodion o weithgareddau
12. Cymhwystra cyfranogwyr
13. Themâu trawsbynciol
14. Cyhoeddusrwydd
15. Atodiad Un
16. Atodiad Dau
17. Atodiad Tri

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn cynnig cyngor ac awgrymiadau ymarferol ar gadw cofnodion i helpu i sicrhau y gall prosiectau a gyllidir gan y cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd gydymffurfio â gofynion eu cyllid. Nid yw'r canllaw hwn yn disodli unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Dylai prosiectau bob amser gyfeirio at eu llythyr cytundeb cyllido eu hunain a'r fersiwn ddiweddaraf o'r 'Rheolau cymhwystra ac amodau ar gyfer cael cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020' i sicrhau bod eu prosiect yn cydymffurfio'n llawn.

Beth yw cadw cofnodion?

Yn syml, cadw cofnodion yw sut yr ydych yn trefnu ffeiliau ar gyfer y dogfennau y mae angen i chi eu storio fel tystiolaeth, nid yn unig er mwyn gwybod faint mae wedi ei gostio i redeg y prosiect, ond hefyd i ddangos yr hyn mae wedi'i wneud a'r hyn mae wedi'i gyflawni. Bydd y dogfennau hyn yn cynnwys gwybodaeth ariannol yn ogystal â manylion gweithgarwch prosiectau a'u canlyniadau..

Pam cadw cofnodion?

Un o'r gofynion ar gyfer holl ddyfarniadau cyllid Ewropeaidd yw bod prosiectau yn gallu darparu tystiolaeth lawn i gefnogi eu holl wariant a holl weithgareddau eu prosiect. Bydd yr Undeb Ewropeaidd yn edrych ar effaith pob un o'i raglenni ym mhob aelod-wladwriaeth benodol i sicrhau bod amcanion y rhaglen wedi'u cyflawni. Felly bydd angen i WEFO goladu a dadansoddi'r wybodaeth a'r ystadegau a gesglir gan brosiectau unigol.

Mae'n bwysig cofio mai arian cyhoeddus yw cyllid Ewropeaidd a bydd pob prosiect yn cael ei archwilio a'i wirio i sicrhau bod ei wariant a'i weithgareddau yn gymwys. Bydd gwiriadau yn cael eu gwneud yn erbyn canllawiau'r rhaglen ac yn erbyn dyfarniadau grant a chontract unigol. Os nad yw cofnodion yn eu lle i ddangos hyn, mae'n bosibl y bydd angen i brosiect ad-dalu arian sydd eisoes wedi'i hawlio.

Bydd cyllid Ewropeaidd yn cyfrannu tuag at gostau gweinyddu prosiect ac mae'n hanfodol bod digon o adnoddau yn cael eu neilltuo o fewn cyllideb prosiect i alluogi i hyn ddigwydd yn effeithiol.

Gall cadw cofnodion effeithiol hefyd fod o fudd ehangach i'ch mudiad oherwydd gall ansawdd yr wybodaeth a gynhyrchir gan system cadw cofnodion dda fod yn ddefnyddiol wrth ysgrifennu ceisiadau eraill am gyllid, ac i helpu i ddangos llwyddiant i fudiadau allanol a'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae system cadw cofnodion dda yn ei gwneud hi'n haws hefyd i staff newydd sy'n dechrau gweithio ar y prosiect.

Y man cychwyn

Mae rheoliadau Ewropeaidd yn nodi'n glir bod cadw cofnodion yn ofyniad, ond derbynnir hefyd fod mudiadau a phrosiectau yn amrywio i'r fath raddau fel na fyddai un system sengl yn gweithio i bawb. Felly, mater i fudiadau unigol yw dylunio a gweithredu systemau a fydd yn gweithio iddynt hwy; gan sicrhau bod gofynion monitro ac archwilio Ewropeaidd yn cael eu bodloni.

Daw'r sail ar gyfer system cadw cofnodion dda cyn i'r prosiect gychwyn. Fel rhan o'r broses ymgeisio (boed hynny'n uniongyrchol i WEFO neu drwy gynllun caffael neu grantiau), ymhell cyn y dyddiad dechrau, rhaid i unrhyw brosiect posibl ddarparu gwybodaeth am yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud, pam mae angen ei wneud, sut y bydd yn rheoli a gweinyddu'r prosiect, a faint fydd yn ei gostio. Dylai meddwl am atebion i'r cwestiynau hyn roi syniad bras i chi o sut y gellid sefydlu system cadw cofnodion a fyddai'n briodol ar gyfer eich prosiect.

Cadw cofnodion yn erbyn monitro a gwerthuso

Mae mudiadau gwirfoddol yn aml wedi teimlo wedi'u rhwygo rhwng eu ffordd draddodiadol o fynd ati i weithio a gofynion cyllid Ewropeaidd. Yn y gorffennol arferai pobl gredu bod Ewrop eisiau gwybod cost popeth heb ddeall gwerth y gwaith y mae mudiadau o'r fath yn ei wneud. Yn benodol, rhaid i brosiectau ddangos sut y gall budd cymdeithasol a chymunedol effeithio ar yr economi, a dyma pryd y mae'n rhaid gwahaniaethu rhwng cadw cofnodion a monitro a gwerthuso.

Mae monitro a gwerthuso yn cyfeirio at sut yr ydych yn mesur llwyddiant ac effaith y gwaith yr ydych yn ei wneud, a dylid gwneud hyn yn ystod ac ar ôl y prosiect. Mae rhai ffyrdd penodol o wneud hyn, gan gynnwys mesur canlyniadau meddal a phellter a deithiwyd. Eich system cadw cofnodion yw'r sylfaen a fydd yn eich galluogi i fonitro a gwerthuso eich prosiect yn effeithiol gan y bydd yn cynnwys tystiolaeth i ddangos yr hyn sydd wedi ei wneud dros ba gyfnod, beth oedd y gost, a beth oedd y canlyniadau a gyflawnwyd.

Archwilio a chadw dogfennau

Rhaid cynnal archwiliad a gwiriad o bob prosiect a ariennir gan Ewrop, a bydd y cofnodion yr ydych yn eu cadw'n werthfawr dros ben i archwilwyr. Yn ogystal â thrafodaethau â staff y prosiect, cofnodion y prosiect fydd y brif ffynhonnell o wybodaeth i archwilwyr.

Yn wahanol i raglenni blaenorol, nid yw cyfnodau cadw ar gyfer prosiectau wedi'u cysylltu mwyach â phroses gau'r rhaglen. Golyga hyn y bydd y cyfnodau cadw cyfartalog yn gostwng i rhwng 5 a 10 mlynedd o'r dyddiad rydych yn datgan eich gwariant i WEFO neu, os yw'n berthnasol, i Gorff Cyfryngol. Yn y mwyafrif o achosion, bydd hyn tua 3 blynedd ar ôl diwedd eich prosiect. Serch hynny, bydd WEFO yn ysgrifennu atoch i roi gwybod yr union gyfnodau cadw sy'n berthnasol i'ch prosiect chi.

Dylai pob ffeil (ffisegol neu electronig) neu focs gael ei labelu'n glir yn unol â chyfnodau cadw dogfennau, ac mae arfer gorau yn argymell cael polisi cadw dogfennau ar waith sy'n amlinellu'r gofynion yn glir i'r holl staff. Gyda hyn mewn golwg, dylid cadw cofnodion mewn ffordd glir a rhesymegol, dylid bod yn hawdd cael gafael arnynt, dylent fod yn gyflawn ac yn gyfarwydd i gymaint â phosibl o'r staff.

Gall parhad fod yn broblem os nad yw rheolwr gwreiddiol y prosiect gyda chi mwyach, yn arbennig os bydd archwiliad yn digwydd ar ôl i brosiect ddod i ben. Felly, argymhellir cael pwynt cyswllt a enwir i fod yn gyfrifol am y prosiect ar ôl iddo ddod i ben.

Mae Atodiad 3 yn cynnwys enghraifft o bolisi cadw dogfennau.

Fformat dogfennau

Gellir cadw dogfennau ar unrhyw un o'r fformatau canlynol:

- Dogfennau sy'n deillio o'u ffurf ddigidol gynhenid ac nad ydynt ond yn bodoli felly h.y. cofnodion 'digidol-anedig' megis ebyst, cofnodion cronfa ddata a thaenlenni ac ati.
- Fersiynau electronig/digidol o ddogfennau papur gwreiddiol a gedwir ar gludwyr data a dderbynnir yn gyffredinol megis microffilm, lluniau wedi'u digido/sganio/atgynhyrchu ac ati.
- Dogfennau papur gwreiddiol.
- Gwir gopïau ardystiedig o ddogfen bapur wreiddiol.

Dolen Allanol

Am ragor o wybodaeth ar amodau WEFO ar gyfer derbyn dogfennau, gweler dogfen WEFO 'Rheolau cymhwystra ac amodau ar gyfer cael cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020'.
WEFO - Rheolau ac Amodau Cymhwystra

Cadw Cofnodion Ariannol

Wrth redeg prosiect a gyllidir gan Ewrop, mae'n hanfodol eich bod yn cadw cofnod o'ch holl weithgarwch ariannol. Pan gynhelir archwiliad o'r prosiect, bydd yr archwilwyr yn chwilio am dystiolaeth o gyfanswm gwariant y prosiect. Rhaid cadw cofnodion fel tystiolaeth o wariant gwirioneddol a gwariant o fath arall, yn ogystal ag unrhyw incwm a gynhyrchir.

Er enghraifft, os yw cyfanswm cost gymwys y prosiect yn £100,000, a bod y gyfradd ymyrraeth yn 70%, yna bydd angen cofnodi a dangos £100,000 o wariant, a fyddai'n cynnwys y £30,000 o arian cyfatebol, er mwyn hawlio £70,000 o gyllid Ewropeaidd.

Mwy na thebyg, bydd gan fudiadau systemau ar waith eisoes i gofnodi eu gwariant ariannol, ond mae'n bwysig bod modd adnabod a dangos tystiolaeth o'r holl gofnodion sy'n ymwneud â gweithgaredd a gyllidir gan Ewrop. Gall cofnodion ariannol fod yn gymysgedd o gofnodion electronig ee drwy feddalwedd gyfrifyddu'r mudiad ei hun a chopïau papur hefyd o ddogfennau megis anfonebau, derbynebau a chyfriflenni banc.

Pan fydd gwybodaeth ariannol yn croesi prif system gyfrifyddu mudiad a systemau prosiect penodol, mae'n syniad da rhoi proses groesgyfeirio glir yn ei lle i ganfod cofnodion perthnasol yn hawdd. Nid oes rhestr gynhwysfawr o pa dystiolaeth y dylid ei darparu i gefnogi costau gwirioneddol ond mae'r tabl isod yn rhoi rhai enghreifftiau cyffredin.

Cost	Tystiolaeth enghreifftiol
Cyflog staff	Dadansoddiad o gyfrifon cyflog y gyflogres, gan gynnwys tystiolaeth glir o gyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr, contractau cyflogaeth, llythyrau penodi.
Amser staff a dreuliwyd ar y prosiect	Taflenni amser staff wedi eu cydlofnodi sy'n dangos holl weithgarwch cymwys ac anghymwys y prosiect (dylai'r holl daflenni amser fod yn rhai gwreiddiol, nid copïau)
Hyfforddi staff	Manylion y cwrs hyfforddi yn dangos perthnasedd i'r prosiect, anfonebau/ derbynebau.
Costau teithio a chynhaliaeth staff	Ffurflenni hawlio treuliau wedi'u cydlofnodi a'r derbynebau a/neu'r tocynnau gwreiddiol wedi'u hatodi.
Recriwtio staff	Copïau o hysbysebion recriwtio ac anfonebau wedi'u hatodi.
Deunyddiau hyfforddi (e.e. pecynnau hyfforddi, llyfrau, meddalwedd)	Anfonebau, wedi'u croesgyfeirio at fanylion talu, a chyfiawnhad dros ddeunyddiau'r cwrs; taflenni/posteri yn hysbysebu cyrsiau.
Llogi lleoliad ac arlwyaeth	Anfonebau a manylion perthnasol am y cwrs.
Costau swyddfa	Deunyddiau ysgrifennu ac ati; anfonebau, biliau a derbynebau, unrhyw gofnodion caffael perthnasol a chyfrifon gwerth am arian, wedi'u croesgyfeirio at fanylion talu.
Marchnata	Copïau o unrhyw hysbysebion a deunyddiau marchnata gydag anfonebau wedi eu hatodi, unrhyw gofnodion caffael perthnasol a chyfrifon gwerth am arian, wedi'u croesgyfeirio at fanylion talu.
Costau teithio a chynhaliaeth Cyfranogwyr/Gwirfoddolwyr	Ffurflenni hawlio treuliau wedi eu cydlofnodi gyda derbynebau a/neu docynnau wedi'u hatodi (nid copïau).

Costau gofal plant/dibynyddion (pan fo'n gymwys)	Ffurflenni hawlio wedi eu cydlofnodi gydag anfoneb/derbynneb am gostau gofal plant gwirioneddol (copïau gwreiddiol).
Cyflogau Cyfranogwyr (ar brosiectau cymwys yn unig)	Dadansoddiad o gyfrifon cyflog y gyflogres gan gynnwys tystiolaeth glir o gyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr, contractau cyflogaeth, llythyrau penodi.
Amser Cyfranogwyr/Gwirfoddolwyr a dreuliwyd ar y prosiect	Taflenni amser staff wedi eu cydlofnodi sy'n dangos holl weithgarwch cymwys ac anghymwys y prosiect (dylai'r holl daflenni amser fod yn rhai gwreiddiol, nid copïau)
Costau eraill y prosiect (e.e. prynu cyfarpar, tir, adeiladau, darparu hyfforddiant, achredu)	Anfonebau, unrhyw gofnodion caffael perthnasol a chyfrifon gwerth am arian, wedi'u croesgyfeirio at fanylion talu.

Rhaid cael tystiolaeth glir i ddangos bod yr holl gostau wedi'u talu. Cyfeirir at hyn yn aml fel ad-dalu costau. Y ffordd hawsaf o brofi hyn yw drwy ddarparu cyfriflenni banc sy'n dangos yr arian yn gadael cyfrif banc eich mudiad.

Mae'n bwysig cofio bod gan bob prosiect ei gontract neu ei ddyfarniad grant ei hun a dylech bob amser gyfeirio at ofynion unigol eich prosiect i sicrhau eich bod yn darparu'r wybodaeth ofynnol. Does dim un ateb sy'n addas i bawb o ran cadw cofnodion ariannol. Os oes amheuaeth a ydych yn cadw'r cofnodion priodol cysylltwch â WEFO, y Corff Cyfryngol neu'r buddiolwr Arweiniol i gael eglurhad sy'n benodol i'ch prosiect.

Cadw cofnodion ar gyfer costau cyfalaf

Mae prosiectau ERDF yn debygol o gynnwys **costau cyfalaf**, sef costau sy'n codi drwy brynu tir, adeiladau, adeiladu cyfarpar. Mae prosiectau ESF ar y llaw arall yn gostau refeniw yn bennaf.

Rhaid i unrhyw wariant cyfalaf gael ei gymeradwyo'n benodol naill ai gan WEFO, y Corff Cyfryngol neu'r Buddiolwr Arweiniol. Caniateir eitemau bach o wariant cyfalaf ar brosiectau ESF pan fo rhesymau clir wedi'u rhoi i ddangos pam mae eu hangen.

Mae angen trin cofnodion costau cyfalaf ERDF yn yr un ffordd ag unrhyw gofnodion ariannol eraill h.y. mae'n rhaid cael anfonebau, perthnasedd i'r prosiect a manylion talu ar gyfer yr holl gostau cyfalaf a ddangosir fel rhan o gyfanswm costau'r prosiect.

Bydd archwilwyr yn chwilio am drywydd archwilio yn ôl i'r ffigurau sy'n sail i unrhyw hawliad, a bydd rhaid i bob hawliad fod yn seiliedig ar ffigurau gwirioneddol yn hytrach na ffigurau rhagamcanol. Awgrymir hefyd eich bod yn cynnwys copïau o'ch ffurflenni hawlio yn eich ffeil brosiect i ddangos bod yr hyn yr ydych wedi ei hawlio'r un faint â'r hyn yr ydych wedi ei wario. Awgrymir hefyd eich bod yn cynnwys taflen grynodeb sy'n dangos dadansoddiad o'r costau yr ydych wedi eu hawlio gyda phob hawliad. Dylid hefyd atodi anfonebau (neu wybodaeth groesgyfeirio) a thaflenni amser i gadarnhau'r costau hyn gyda'r daflen grynodeb hon.

Rhaid hefyd gofnodi pob gwariant cyfalaf mewn cofrestr asedau. Gellir defnyddio naill ai gofrestr asedau corfforaethol sydd eisoes yn bodoli neu gofrestr sy'n benodol i'r prosiect. Rhaid i'r gofrestr gofnodi o leiaf y canlynol:

- Dyddiad prynu/derbyn
- Cost
- Disgrifiad o'r eitem a/neu rif unigryw'r ased
- Lleoliad
- Costau dibrisiant hyd at y dyddiad presennol (os yw'n berthnasol)
- 'Gwerth llyfr' net (y gost wreiddiol namyn costau dibrisiant hyd at y dyddiad presennol)
- Dyddiad gwerthu/gwaredu a'r swm (os yw'n berthnasol)

Cynhyrchu incwm a phrosiectau a gyllidir gan Ewrop

Ni ddylai'r un prosiect a gyllidir gan Ewrop fod â'r bwriad na'r effaith i gynhyrchu elw (yr 'egwyddor dim elw'). Pan wneir elw/gwarged, mae'n bosibl y bydd rhaid dychwelyd canran o'r elw gan ddibynnu ar a yw'r refeniw yn codi yn ystod cyfnod gweithredu prosiect neu'r cyfnod ar ôl ei gwblhau.

Mae llawer o fudiadau yn cael anhawster gyda'r maes cymhleth hwn, ac i bob prosiect a gyllidir gan Ewrop, mae fel arfer yn well i osgoi cynhyrchu incwm yn ystod oes y cyllid gan ei fod yn cymhlethu'r gwaith o gadw cofnodion.

Yng nghyd-destun cynaliadwyedd a strategaethau ymadael, mae hyn yn gallu achosi problemau i lawer o brosiectau. Felly dylai pob prosiect sy'n debygol o gynhyrchu incwm neu sy'n gobeithio cynhyrchu incwm, sicrhau bod hyn yn cael ei drafod yn drylwyr â WEFO, y Corff Cyfryngol neu'r buddiolwr Arweiniol yn ystod y cam ymgeisio, gan ystyried eu cyngor yn ofalus cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol. Dylai unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud ag unrhyw incwm y disgwyliwch ei gynhyrchu gael ei gadw yn y ffeil brosiect.

Cadw cofnodion o weithgareddau

Darparu tystiolaeth i ddangos ar beth y mae arian wedi'i wario yw un ochr o stori'ch prosiect ac mae hi cyn bwysiced i gadw cofnodion sy'n ymwneud yn benodol â gweithgarwch eich prosiect. Eto does dim un ffordd o gofnodi gweithgarwch prosiect a fydd yn addas i bawb. Bydd gan bob prosiect ei set ei hun o ganlyniadau ac allbynnau sydd wedi'u diffinio'n glir a bydd angen iddo weithio gyda WEFO, y Corff Cyfryngol neu'r buddiolwr Arweiniol i sicrhau ei fod yn deall yr union gofnodion sydd eu hangen i ddangos ei lwyddiannau.

Dolen Allanol

Mae WEFO wedi darparu canllawiau penodol ar gyfer pob amcan penodol fel y'i nodir yn y rhaglenni gweithredol. Mae'r holl ddogfennau canllaw ar gael yn yr adran 'Monitro a gwerthuso' ar wefan WEFO o fewn yr adran sy'n berthnasol i'r rhaglen gyllido.
[WEFO - Monitro a Gwerthuso]

Cymhwystra cyfranogwyr (ESF yn unig)

Yn y rhaglen gyllido bresennol ceir rheolau clir iawn ynglŷn â'r ffordd y dylai prosiectau asesu cymhwystra cyfranogwyr unigol i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Rhaid i'r gwaith hwn gael ei ategu gan dystiolaeth benodol a fydd yn cael sylw yn ystod archwiliadau a gwiriadau.

Mae'r dystiolaeth sydd ei hangen yn benodol i bob grŵp targed o gyfranogwyr a rhaid i brosiectau gyfeirio at y ddogfen '**Cronfa Gymdeithasol Ewrop 2014-2020: Canllawiau ar asesu cymhwystra cyfranogwyr**'.

Themâu trawsbynciol

Rhaid i bob prosiect a gyllidir gan Ewrop allu dangos ei gyfraniad at y Themâu Trawsbynciol. Drwy'r y cam cynllunio busnes neu'r cam ymgeisio am brosiect bydd gennych dargedau wedi'u diffinio'n glir mewn perthynas â'r Themâu Trawsbynciol ac mae'n bwysig sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu'n gyson drwy gydol gweithrediad eich prosiect i ddangos y cynnydd tuag at y targedau hyn a'u cyflawniad yn y pen draw. Dylai prosiectau bob amser gyfeirio at eu cytundeb cyllido i sicrhau eu bod yn cofnodi'r wybodaeth ofynnol.

Dolen Allanol
Gellir cael gwybodaeth ychwanegol ar Themâu Trawsbynciol ar wefan WEFO
WEFO - Themâu trawsbynciol

Cyhoeddusrwydd

Un o ofynion cyllid Ewropeaidd yw bod prosiectau yn cael eu hysbysebu yn unol â'r arweiniad penodol '**Canllawiau gwybodaeth a chyhoeddusrwydd 2014 -2020**'. Yn aml, bydd prosiectau yn cadw cofnodion pan fo arian yn cael ei wario ar gyhoeddusrwydd penodol ond mae'n bwysig bod prosiectau'n cadw cofnodion i ddangos graddau llawn eu cyhoeddusrwydd, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, sgrin lun o wefannau, datganiadau i'r wasg, y defnydd cywir o logos ac unrhyw weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol.

Atodiad Un

Enghraifft o brosiect ESF

Mae Sefydliad Baggins yn cyflawni prosiect a gyllidir gan ESF i weithio gyda chyfranogwyr economaidd anweithgar dros 25 oed sydd â chyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio. Mae'r prosiect ar waith yn benodol yn y gogledd-orllewin (Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn). Mae'r prosiect ar waith am 2 flynedd. Mae'r mudiadau yn fuddiolwr arweiniol yn uniongyrchol gyda WEFO ac yn darparu'r holl weithgareddau eu hunain.

Penawdau costau cyffredinol	Cost
Cyflogau staff*	
Rheolwr y Prosiect	£50,000
Gweithiwr Cymorth	£40,000
Gweinyddwr	£35,000
Amser gwirfoddolwyr	
Hyfforddwr gwirfoddolwyr	£20,000
Costau eraill staff	
Recriwtio staff	£1,000
Costau teithio a chynhaliaeth staff a gwirfoddolwyr	£2,350
Costau cyfranogwyr	
Costau teithio a chynhaliaeth cyfranogwyr	£10,000
Gofal plant cyfranogwyr	£5,000
Achredu cymwysterau	£3,000
Costau eraill y prosiect	
Deunyddiau hyfforddi	£5,000
Cyhoeddusrwydd a marchnata	£1,500
5 gliniadur	£2,400
2 ddigwyddiad dathlu	£6,000
15%o ychwanegiad anuniongyrchol	**£18,750**
Cyfanswm cost y prosiect	**£200,000**

*Mae'r holl gostau staff yn cynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr

Cyfradd ymyrraeth	70%
Bydd Ewrop yn cyfrannu	£140,000
Arian cyfatebol y bydd ei angen	£60,000

Mae'r arian cyfatebol a ddarperir yn gymysgedd o'r hyfforddwr gwirfoddolwyr ac arian o asedau anghyfyngedig y mudiad ei hun.

Allbynnau	Targed
Nifer y cyfranogwyr a gymerodd ran	100
Nifer y cyfranogwyr a enillodd gymhwyster achrededig	70
Nifer y cyfranogwyr sy'n dechrau gwirfoddoli	40
Nifer y cyfranogwyr sy'n mynd i gyflogaeth	20
Nifer y cyfranogwyr sy'n cyflawni canlyniad positif	90

Bydd y ffeil brosiect yn cynnwys (gall y ffeil brosiect fod yn gymysgedd o ffeiliau electronig a ffeiliau papur):

Rheoli prosiect cyffredinol

- Copi o'r cynllun busnes terfynol ac unrhyw atodiadau perthnasol
- Y llythyr cytundeb cyllido
- Gohebiaeth â WEFO
- Unrhyw lythyrau sy'n cytuno i roi arian cyfatebol (pan fo'n berthnasol)
- Copïau o unrhyw adolygiadau a thystiolaeth i fynd i'r afael ag unrhyw gamau dilynol
- Copïau o unrhyw adroddiadau archwilio/gwirio
- Yr holl gofnodion ynglŷn â chyhoeddusrwydd
- Tystiolaeth i gefnogi gwaith tuag at Themâu Trawsbynciol
- Rheoliadau ariannol y mudiad
- Copïau o bolisïau perthnasol y mudiad gan gynnwys, ymhlith pethau eraill –
  - Cyfansoddiad / Memorandwm erthyglau
  - Polisi iechyd a diogelwch
  - Polisi diogelu data
  - Polisi cyfle cyfartal
  - Polisi amgylcheddol
  - Polisi Iaith Gymraeg
  - Polisi gwrthdaro buddiannau a gwrth-lwgrwobrwyo
  - Polisi diogelu
  - Polisi caffael

  - Polisi teithio staff
  - Polisi cadw dogfennau
- Cyfrifon blynyddol
- Cyfrifon rheoli chwarterol
- Crynodeb o lif arian parod cytunedig
- Strwythur staff

Cofnodion ariannol

- Cyllideb y prosiect gyda gwariant cronnus
- Hawliadau chwarterol gyda thystiolaeth ategol
  - Cyflogau staff
    - Contractau cyflogaeth / llythyrau penodi / disgrifiadau swydd
    - Gwybodaeth am y gyflogres
    - Taflenni amser wedi'u llofnodi
    - Slipiau talu
    - Cyfriflenni banc
  - Amser gwirfoddolwyr
    - Disgrifiad rôl gwirfoddolwyr
    - Taflenni amser wedi'u llofnodi
  - Costau staff eraill
    - Anfoneb ar gyfer hysbysebion recriwtio gyda hysbysebion wedi'u hatodi (gan ddangos cydymffurfiaeth â gofynion cyhoeddusrwydd)
    - Ffurflenni treuliau wedi'u llofnodi gyda chopïau gwreiddiol o unrhyw dderbynebau – sicrhewch fod y treuliau a hawlir yn dilyn polisi'r mudiad ac yn cyd-fynd â thaflenni amser.
    - Cyfriflenni banc
  - Costau cyfranogwyr
    - Ffurflenni treuliau wedi'u llofnodi gyda chopïau gwreiddiol o unrhyw dderbynebau – sicrhewch fod y treuliau a hawlir yn dilyn polisi'r mudiad
    - Anfoneb gan ddarparwr gofal plant – rhaid iddi ddangos ei fod yn ddarparwr gofal plant cofrestredig
    - Anfoneb ar gyfer achredu – sicrhewch fod rhestr o gyfranogwyr yn cael ei darparu sy'n gysylltiedig â'r achrediad. Rhaid i'r gwaith papur cyfatebol o fewn cofnod y cyfranogwr gyd-fynd â hyn.
    - Cyfriflenni banc

- Costau prosiect eraill
  - Anfonebau yn ymwneud â chynhyrchu deunyddiau hyfforddi – copïau o ddeunyddiau a gynhyrchwyd (gan ddangos cydymffurfiaeth â gofynion cyhoeddusrwydd), tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gweithdrefnau caffael a chyfrifon gwerth am arian.
  - Anfonebau yn ymwneud â chynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd – copïau o ddeunyddiau a gynhyrchwyd (gan ddangos cydymffurfiaeth â gofynion cyhoeddusrwydd), tystiolaeth i ddangos cydymffurfio â gofynion caffael a chyfrifon gwerth am arian.
  - Anfonebau ar gyfer gliniaduron, tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gweithdrefnau caffael a chyfrifon gwerth am arian.
  - Anfonebau yn ymwneud â digwyddiad dathlu, rhestrau o'r rheini a oedd yn bresennol, copïau o unrhyw gyhoeddusrwydd/marchnata, tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gweithdrefnau caffael a chyfrifon gwerth am arian.
  - Cyfriflenni banc
- Rhestr trafodiadau ar gyfer gwariant y chwarteri
- Copïau o adroddiadau gwirio a gohebiaeth
- Llythyrau talu

Cofnodion cyfranogwyr

- Proffil prosiect yn dangos llwyddiannau cronnus
- Ffurflen gofrestru'r cyfranogwr wedi'i llofnodi – gan gasglu'r holl wybodaeth y mae WEFO yn gofyn amdani
  - Tystiolaeth i gefnogi Rhif Yswiriant Gwladol
  - Tystiolaeth i ddangos eu bod o'r ardal ddaearyddol gymeradwy
  - Tystiolaeth i ddangos eu bod yn perthyn i'r grwpiau targed cymeradwy (Economaidd Anweithgar a Chyflwr Iechyd sy'n Cyfyngu ar eu Gallu i Weithio)
  - Tystiolaeth i ddangos bod y cyfranogwr dros 25 oed
  - Asesiad o addasrwydd i ddangos perthnasedd y gweithgarwch
- Tystiolaeth i ddangos eu bod wedi cymryd rhan mewn gwirionedd
  - Cofrestri presenoldeb
  - Taflenni amser wedi'u llofnodi (pan fo'n berthnasol)
  - Cynlluniau Gweithredu/Hyfforddi
  - Dogfennau adolygu

- Holiaduron sgiliau meddal – rhaid iddynt ddangos pellter a deithiwyd
- Tystiolaeth i ddangos cymwysterau a enillwyd – tystysgrifau, trawsgrifiadau cwrs
- Tystiolaeth i gefnogi canlyniad y cynnydd – cadarnhad wedi'i lofnodi gan gyflogwr / lleoliad gwirfoddoli
- Ffurflen ymadael wedi'i llofnodi - gan gasglu'r holl wybodaeth y mae WEFO yn gofyn amdani

Atodiad Dau

Enghraifft o brosiect ERDF

Mae cyngor cymuned pentref bach yn y Canolbarth wedi sicrhau prosiect i osod tyrbin gwynt yn y pentref er mwyn datblygu cynllun ynni cymunedol bychan. Mae'r prosiect ar waith am 2 flynedd a'r cyngor cymuned yw'r buddiolwr arweiniol gyda WEFO.

Penawdau costau cyffredinol	Cost
Cyflogau staff*	
Rheolwr y Prosiect	£75,000
Gweinyddwr	£35,000
Costau eraill staff	
Recriwtio staff	£1,000
Costau teithio a chynhaliaeth staff	£2,000
Costau eraill y prosiect	
Prynu a gosod tyrbin gwynt	£527,000
Gwasanaethau contractwr arbenigol	£50,000
Yswiriant a thrwyddedau penodol	£20,000
Arolygu a chlirio'r safle	£10,000
Cyhoeddusrwydd a hyrwyddo	£8,000
Digwyddiad lansio cymunedol	£5,000
15% o ychwanegiad anuniongyrchol	**£16,500**
Cyfanswm cost y prosiect	**£750,000**

* Mae'r holl gostau staff yn cynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn y cyflogwr

Cyfradd ymyrraeth	65%
Bydd Ewrop yn cyfrannu	£487,500
Arian cyfatebol y bydd ei angen	£262,500

Mae'r arian cyfatebol yn cael ei ddarparu gan gyfraniad ariannol preifat.

Allbynnau	Targed
Nifer y cynlluniau ynni cymunedol sy'n cael eu creu	1

Bydd y ffeil brosiect yn cynnwys (gall y ffeil brosiect fod yn gymysgedd o ffeiliau electronig a ffeiliau papur):

Rheoli prosiect cyffredinol

- Copi o'r cynllun busnes terfynol ac unrhyw atodiadau perthnasol
- Y llythyr cytundeb cyllido
- Gohebiaeth â WEFO
- Unrhyw lythyrau sy'n cytuno i roi arian cyfatebol (pan fo'n berthnasol)
- Copïau o unrhyw adolygiadau a thystiolaeth i fynd i'r afael ag unrhyw gamau dilynol
- Copïau o unrhyw adroddiadau archwilio/gwirio
- Yr holl gofnodion ynglŷn â chyhoeddusrwydd
- Tystiolaeth i gefnogi gwaith tuag at Themâu Trawsbynciol
- Rheoliadau ariannol y mudiad
- Copïau o bolisïau perthnasol y mudiad gan gynnwys, ymhlith pethau eraill –
  - Cyfansoddiad / Memorandwm erthyglau
  - Polisi iechyd a diogelwch
  - Polisi diogelu data
  - Polisi cyfle cyfartal
  - Polisi amgylcheddol
  - Polisi Iaith Gymraeg
  - Polisi gwrthdaro buddiannau a gwrth-lwgrwobrwyo
  - Polisi diogelu
  - Polisi caffael
  - Polisi teithio staff
  - Polisi cadw dogfennau
- Cyfrifon blynyddol
- Cyfrifon rheoli chwarterol
- Crynodeb o lif arian parod cytunedig
- Strwythur staff

Cofnodion ariannol

- Cyllideb y prosiect gyda gwariant cronnus
- Hawliadau chwarterol gyda thystiolaeth ategol

- Cyflogau staff
  - Contractau cyflogaeth / llythyrau penodi / disgrifiadau swydd
  - Gwybodaeth am y gyflogres
  - Taflenni amser wedi'u llofnodi
  - Slipiau talu
  - Cyfriflenni banc
- Costau staff eraill
  - Anfoneb ar gyfer hysbysebion recriwtio gyda hysbysebion wedi'u hatodi (gan ddangos cydymffurfiaeth â gofynion cyhoeddusrwydd)
  - Ffurflenni treuliau wedi'u llofnodi gyda chopïau gwreiddiol o unrhyw dderbynebau – sicrhewch fod y treuliau a hawlir yn dilyn polisi'r mudiad ac yn cyd-fynd â thaflenni amser.
  - Cyfriflenni banc
- Costau prosiect eraill
  - Anfonebau yn ymwneud â phrynu tyrbin gwynt, tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion caffael a chyfrifon gwerth am arian.
  - Anfonebau ar gyfer gwasanaethau contractwr arbenigol, gohebiaeth i ddangos gwaith, copïau o unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd, tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion caffael a chyfrifon gwerth am arian.
  - Anfonebau ar gyfer yswiriant a thrwyddedau arbennig, copïau o unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd, tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion caffael a chyfrifon gwerth am arian.
  - Anfonebau ar gyfer arolygu a chlirio'r safle, copïau o unrhyw adroddiadau a gynhyrchwyd, tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion caffael a chyfrifon gwerth am arian.
  - Anfonebau yn ymwneud â chynhyrchu deunyddiau cyhoeddusrwydd – copïau o ddeunyddiau a gynhyrchwyd (gan ddangos cydymffurfiaeth â gofynion cyhoeddusrwydd), tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion caffael a chyfrifon gwerth am arian.
  - Anfonebau yn ymwneud â digwyddiad lansio cymunedol, rhestr o'r rheini a oedd yn bresennol, copïau o unrhyw gyhoeddusrwydd/ marchnata, tystiolaeth i ddangos cydymffurfiaeth â gofynion caffael a chyfrifon gwerth am arian.
  - Cyfriflenni banc
- Rhestr trafodiadau ar gyfer gwariant y chwarteri
- Copïau o adroddiadau gwirio a gohebiaeth
- Llythyrau talu
- Cofnodion clir ynglŷn ag unrhyw incwm a gynhyrchir

Cofnodion gweithgareddau

- Unrhyw adroddiadau a gynhyrchir sy'n ymwneud â'r cynnydd ar y gwaith
- Ffotograffau o'r gwaith a wneir
- Cofnodion llawn sy'n ymwneud â sefydlu a gweithredu cynllun ynni cymunedol
  - Gan gynnwys manylion y rheini sydd wedi ymuno
  - Digwyddiadau a gwaith hyrwyddo mewn perthynas â'r cynllun
- Gwerthusiad o'r cynllun ynni

Atodiad Tri

Enghraifft o bolisi cadw dogfennau

Mae'r polisi hwn yn ymwneud â chadw dogfennau mewn perthynas â Phrosiectau [nodi enw'r mudiad] a gyllidir gan Ewrop. Bydd y ddogfen hon yn cael ei diweddaru yn rheolaidd i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn Rheoliadau Ewropeaidd.

Polisi [nodi enw'r mudiad] yw cadw'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â Phrosiectau Ewropeaidd yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd yn y Rheolau cymhwystra ac amodau ar gyfer cael cymorth o'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2014-2020 a'r gofynion penodol a nodir yn y llythyr cynnig grant. Ni ddylid dinistrio'r un ddogfen heb lythyr swyddogol gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cymeradwyo dinistrio dogfennau'r prosiect.

At ddibenion y polisi hwn, mae dogfennau prosiect yn cynnwys copïau papur gwreiddiol a'r rheini sy'n cael eu cadw'n electronig, gan gynnwys, ymhlith pethau eraill;

- Cofnodion ariannol
- Cofnodion cyfranogwyr
- Cofnodion o weithgarwch y prosiect
- Dogfennau polisi
- Gweithdrefnau'r prosiect
- Gwerthusiadau
- Cofnodion a thaflenni amser staff
- Cofnodion tendro/caffael
- Dogfennau'r prosiect
- Cyhoeddusrwydd
- Tystiolaeth o Themâu Trawsbynciol

Dull storio ar gyfer prosiectau sydd wedi'u harchifo

Unwaith y bydd prosiect wedi'i gwblhau a'r taliad olaf wedi'i dderbyn gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, rhaid archifo holl ddogfennau'r prosiect sydd ar ffurf copi caled yn y bocsys priodol a chofnodi cynnwys pob bocs ar daenlen yr archif.

Dylai fod label ar bob bocs (ar y bedair ochr) sy'n nodi'r wybodaeth ganlynol:

- Rhif y bocs
- Enw'r prosiect
- Rhif y prosiect
- Disgrifiad cryno o'r cynnwys e.e. gwybodaeth am y cyfranogwyr, cyllid, ac ati
- Dyddiad dinistrio posibl

Dylid defnyddio'r dyddiad dinistrio at ddibenion adolygu'n unig. Ni ddylid dinistrio'r un ddogfen yn seiliedig ar y dyddiad hwn oni bai bod WEFO wedi rhoi cyfarwyddiadau penodol i ddinistrio'r dogfennau.

Dylid hefyd cadw cofnodion clir i gofnodi tystiolaeth electronig sy'n cael ei storio gyda ffeiliau wrth gefn wedi'u cadw yn y bocsys pan fo'n briodol. Bydd unrhyw gyfrineiriau perthnasol i gael mynediad at y ffeiliau yn cael eu cofnodi ar daenlen yr archif.

Cefnogi Trydydd Sector Cymru

Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.